Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Y Fenni

**Heol Dewi Sant**
**Y Fenni**
**NP7 6EL**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Y Fenni

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Gymraeg Y Fenni |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Fynwy |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori 3 - Ysgol cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | d/b |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 270 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 207 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 34 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn Cynradd yw 22.9%) | 11.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn Cynradd yw 11.1%) | 12.1% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 24.6% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 01/09/2018 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw’n berthnasol) | Chwefror 2017 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 24/09/2024 |

Daw’r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i’r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae’r term ‘anghenion dysgu ychwanegol’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar lle mae disgyblion yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda. Mae bron bob un yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn mynychu'n rheolaidd.

Mae'r pennaeth a'r dirprwy, yn canolbwyntio'n effeithiol ar wella cynnydd, lles a dysgu disgyblion mewn amgylchedd Cymreig. Mae arwyddair yr ysgol, sef: 'Dysgwn fel teulu, tyfwn fel cymuned', yn fyw yn ei bywyd bob dydd ac yn sicrhau bod disgyblion yn hapus, yn dysgu, yn gofalu am ei gilydd, ac yn falch o fod yn Gymry Cymraeg. Maent yn sicrhau bod lles disgyblion yn gadarn, yn ddiogel, a'u bod yn ddysgwyr chwilfrydig a hyderus, sy'n teimlo eu bod yn perthyn i gymuned deuluol yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gwricwlwm diddorol sy'n cefnogi disgyblion i fod yn ddysgwyr cyflawn sy'n cyfarwyddo'n dda â'u hardal leol, Cymru a'r byd. Trwy ddilyn y cwricwlwm hwn, mae staff yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn hoffi dysgu ac yn gwneud cynnydd sydd o leiaf yn dda yn eu hamrywiol fedrau, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd, a digidol. Un o gryfderau'r ysgol yw ei dull o annog bron bob disgybl, beth bynnag eu cefndir ieithyddol, i siarad Cymraeg yn hyderus a chynyddol gywir. Mae gan y rhan fwyaf o athrawon ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion. Er hyn, nid ydynt bob amser yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a gwneud pethau drostyn nhw eu hunain.

Mae'r pennaeth a llywodraethwyr wedi rheoli adnoddau'r ysgol yn briodol dros nifer o flynyddoedd. Er hyn, ar hyn o bryd, maent yn wynebu sefyllfa o orwariant sylweddol. Maent bellach wedi dechrau cydweithio â'r awdurdod lleol i fynd i'r afael â hyn.

Mae arweinwyr yn cyfathrebu'n rheolaidd gyda rhieni, ond nid yw eu dulliau o gyfathrebu â nhw bob amser yn ddigon clir na chyson. O ganlyniad, nid oes gan yr holl rieni ddealltwriaeth briodol o'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgol o ddydd i ddydd.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1 Ymateb yn ddiymdroi i ddiffyg ariannol yr ysgol

A2 Addasu dulliau addysgu i wella medrau dysgu annibynnol disgyblion

A3 Cysoni dulliau cyfathrebu arweinwyr gyda rhieni

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth gadarn y dirprwy, yn darparu cyfeiriad strategol cadarn i'r ysgol sy'n canolbwyntio'n effeithiol ar wella cynnydd, lles a dysgu disgyblion mewn amgylchedd Cymreig. Mae'r weledigaeth ar gyfer yr ysgol, sef 'Dysgwn fel teulu, tyfwn fel cymuned' yn glir, yn treiddio trwy ei holl waith. Mae hyn yn sicrhau bod yr ysgol yn gymuned ddysgu lwyddiannus lle mae disgyblion a staff yn ymfalchïo mewn bod yn Gymry Cymraeg. Mae'n sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ac yn gwneud cynnydd sydd o leiaf yn dda yn eu medrau llythrennedd, rhifedd, a digidol ynghyd ag ystod eraill o fedrau mewn amrywiol feysydd dysgu. Mae hyn yn cynnwys disgyblion y mae tlodi yn cael effaith arnynt a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae arweinwyr yn sicrhau bod lles disgyblion yn gadarn, eu bod yn ddiogel, a'u bod yn ddysgwyr chwilfrydig a hyderus, sy'n teimlo eu bod yn perthyn i gymuned deuluol yr ysgol. Trwy wreiddio gweithdrefnau cadarn, mae'r ysgol yn cynnal diwylliant effeithiol o ddiogelu.

Mae arweinwyr yn ystyried blaenoriaethau cenedlaethol cyfredol fel gwella presenoldeb, sicrhau lles disgyblion, addasu dulliau addysgu ac olrhain cynnydd yn llwyddiannus. Mae hyn yn dylanwadu'n gyson ar les disgyblion, yr addysgu a'r dysgu.

Mae gan yr ysgol gwricwlwm diddorol sy'n diwallu anghenion cyflawn disgyblion. Darperir cyfleoedd buddiol iddynt ddysgu am eu hardal leol, eu hunaniaeth fel Cymry Cymraeg a'r byd ehangach. Mae hyn yn ei dro yn eu paratoi i fod yn ddinasyddion cydwybodol a gwybodus.

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion. Maent yn cyflwyno her briodol a chymorth buddiol i lawer o'r disgyblion, gan gynnwys y rheiny ag ADY. Er hyn, nid ydynt bob amser yn cynllunio tasgau'n ddigon bwriadus nac yn defnyddio dulliau addysgu penodol sy'n galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn llawn. Defnyddir cynorthwywyr yn llwyddiannus i gefnogi'r dysgu, yn arbennig lle mae'r ysgol wedi adnabod unigolion sydd ag ADY.

Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n cychwyn yn yr ysgol sy'n gallu siarad Cymraeg. Er hyn, o ganlyniad i'r ystod eang o ddulliau a phrofiadau dysgu buddiol a ddefnyddir i hyrwyddo iaith lafar, mae'r rhan fwyaf yn datblygu hyder i ddefnyddio'r iaith yn hyderus a chynyddol gywir, ac yn ymfalchïo yn eu Cymreictod.

**Ciplun: Datblygu medrau llafaredd disgyblion**

Mae dulliau'r ysgol ar gyfer trochi a gwella cywirdeb geirfa a phatrymau iaith disgyblion yn hynod lwyddiannus. Mae staff yn defnyddio cyfuniad manwl o ddulliau drilio patrymau iaith yn rheolaidd ynghyd â gweithredu ymarferion llafar hwyliog gyda'r disgyblion er mwyn gwneud y dysgu'n fyw iddynt. Law yn llaw ag ethos Cymreig yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu i fod yn siaradwyr medrus sy'n ymfalchïo yn eu gallu i siarad Cymraeg.

Mae bron bob aelod staff yn cefnogi ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Trwy ddilyn themâu fel tegwch, hawliau a defnyddio meddylfryd cadarnhaol at eu dysgu, mae disgyblion yn ystyried safbwyntiau a gwerthoedd eraill ac yn datblygu dealltwriaeth gadarn o unigolion sy'n wahanol iddyn nhw.

Mae athrawon ac oedolion eraill yn cynorthwyo disgyblion yn effeithiol i ddatblygu agweddau hynod gadarnhaol tuag at eu dysgu. Mae'r defnydd cyson o'r dull 'gwenyn' a ddyfeisiwyd gan yr ysgol, er enghraifft, yn ogystal â'r storïau unigryw sy'n seiliedig arnynt, yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o rinweddau fel gwydnwch a hunanhyder yn llwyddiannus. Mae llawer yn dyfalbarhau neu'n chwilio am atebion newydd pan fyddant yn wynebu anawsterau gyda'u tasgau ac yn ymateb yn fuddiol i sylwadau athrawon ar eu gwaith. Mae'r ystod o weithdrefnau cadarn sydd gan yr ysgol i alluogi athrawon i adnabod y camau nesaf i ddisgyblion yn galluogi'r rhan fwyaf i symud ymlaen gyda'u dysgu yn gyson, ac i wneud cynnydd sydd o leiaf yn dda.

Mae'r ysgol yn cydlynu cymorth buddiol i ddisgyblion ag ADY, gan weithio gydag asiantaethau allanol, lle bo angen. Darperir ystod eang a phwrpasol o hyfforddiant i alluogi staff i gefnogi'r disgyblion hyn yn effeithiol ac i ymateb yn briodol i'w hanghenion. O ganlyniad, mae disgyblion sydd ag ADY yn gwneud cynnydd da o fewn amgylchedd gynhwysol yr ysgol.

Mae disgyblion yn dylanwadu'n llwyddiannus ar fywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn datblygu medrau arwain effeithiol trwy gymryd rhan yn yr ystod eang o grwpiau a drefnir iddynt leisio barn. Mae aelodau'r grwpiau hyn yn cymryd eu rôl o ddifri ac yn gweithredu'n lled annibynnol, gan gynllunio amrywiol weithgareddau ac achlysuron, yn ogystal â chofnodi materion a drafodwyd mewn cyfarfodydd heb gymorth oedolion.

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sy'n hyrwyddo ymddygiad da yn barhaus. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrtais, yn ymddwyn yn barchus ac yn ofalgar iawn o'i gilydd. Er enghraifft, trwy'r cynllun 'bytis', mae'r disgyblion hŷn yn gofalu'n dda am eu cyfoedion ieuengaf.

Mae gweithdrefnau'r ysgol i sicrhau bod disgyblion yn mynychu'n rheolaidd yn effeithiol. O ganlyniad, mae cyfraddau presenoldeb dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi codi'n sylweddol ac maent uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae trefniadau pontio'r ysgol gyda'r ysgolion uwchradd yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau y bydd disgyblion yn trosglwyddo'n esmwyth i'w hysgol nesaf pan ddaw'r amser.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r modd mae arweinwyr yn datblygu staff. Maent yn cynllunio a chyflwyno cyfleoedd dysgu proffesiynol eang a phwrpasol ar eu cyfer sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion. Mae'r flaenoriaeth ddiweddar ar ddatblygu medrau llafaredd disgyblion wedi sicrhau bod y rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da.

Mae gan arweinwyr weithdrefn effeithiol i werthuso'r ddarpariaeth gan adnabod ei chryfderau a'r meysydd i'w gwella. Mae'r gweithdrefnau cyfredol, er yn lled newydd, yn gynhwysfawr, ac yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol. Mae deilliannau'r weithdrefn yn gymorth i arweinwyr bennu blaenoriaethau ar gyfer gwella sy'n glir ac yn canolbwyntio ar faterion bwriadus.

Mae llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn briodol. Maent yn ymweld â'r ysgol yn achlysurol ac yn cael cyfleoedd gan y pennaeth i drafod a herio pa mor effeithiol yw'r ddarpariaeth a'r cynnydd mae disgyblion yn ei wneud. Er hyn, nid yw llywodraethwyr yn cyfrannu'n ddigon bwriadus ac amserol i'r broses hunanwerthuso. Mae llywodraethwyr wedi rheoli adnoddau'r ysgol yn briodol dros gyfnod hir. Er hyn, yn ddiweddar, o ganlyniad i nifer o ffactorau, mae'r ysgol yn wynebu sefyllfa o orwariant sylweddol. Mae llywodraethwyr bellach wedi dechrau cydweithio â'r awdurdod lleol i fynd i'r afael â hyn.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth briodol gyda rhieni, ond nid yw dulliau arweinwyr o gyfathrebu â nhw bob amser yn ddigon clir na chyson. O ganlyniad, nid oes gan yr holl rieni ddealltwriaeth briodol o'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgol o ddydd i ddydd.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelwch safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Nid yw arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid cyffredinol yr ysgol yn briodol, ond maent yn gwneud defnydd effeithiol o'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  26/11/2024